# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-14-09 Papur 2: 20 Hydref 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 14-09 Papur 2A.

### (i) P-03-172 Adfer Fferi Abertawe-Cork

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog, ym mhob ffordd bosibl, adfer yn fuan Fferi Abertawe-Cork. Credwn y byddai i hynny fanteision economaidd a chymdeithasol pendant i'r naill economi a'r llall.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-172.htm

**Cynigiwyd gan :** John Hosford

**Nifer y llofnodion:** Cynigiwyd y ddeiseb hon gan John Hosford a chasglodd 29 o lofnodion. Casglwyd dros 1,500 llofnod a datganiad cefnogi ar wefan y deisebydd, yn galw am adfer y llwybr fferi hwn.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr 2009, 31 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 19 Mehefin 2009 a 22 Medi 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd, ac mae i'w gweld fel atodiad yn PET(3) 14-09 Papur 2A.

### (ii) P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gadw cymeriad hanesyddol y Fenni fel tref farchnad drwy beidio â diddymu na diwygio Deddfau Gwelliannau i'r Fenni 1854 i 1871, gan felly gadw'r holl fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n gysylltiedig â bod yn dref farchnad.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-205.htm

**Cynigiwyd gan:** Barry Greenwood

**Nifer y llofnodion:** 4757

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 9 Mehefin 2009, 23 Mehefin 2009 a 6 Hydref 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan yr "Abergavenny Market Auctioneers Ltd"., yr arwerthwyr lleol, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, ac mae'r rhain i'w gweld fel atodiad yn PET(3) 14-09 Papur 2A.

#### (iii) P-03-213 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deiseb y Secret World Wildlife Rescue)

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'r cynllun arfaethedig i ddifa moch daear fel rhan o'i rhaglen Dileu TB mewn gwartheg. Mae hyn yn wyneb tystiolaeth wyddonol gadarn a adolygwyd gan gymheiriaid o'r Grwp Gwyddonol Annibynnol. Mae'n nodi'r glir 'na all difa moch daear wneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i reoli TB mewn gwartheg' Ymunwch â'n hymgyrch - rhowch ddiwedd ar y cynllun difa!

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-213.htm

**Cynigiwyd gan:** Secret World Wildlife Rescue

**Nifer y llofnodion:** 14098

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 5 Mai 2009, 23 Mehefin 2009 a 22 Medi 2009.

### (iv) P-03-235 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deiseb yr RSPCA)

#### Geiriad y ddeiseb

Llofnodwch y ddeiseb heddiw a lleisiwch eich barn yn erbyn penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddifa moch daear yng Nghymru fel rhan o strategaeth i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg (bTB) . Mae'r RSPCA wedi'i arswydo gan y penderfyniad i ddifa moch daear ond mae'n croesawu cynlluniau i gynyddu'r arfer o brofi gwartheg a bioddiogelwch. Goruchwyliodd y Grwp Gwyddonol Annibynnol (ISG) arbrawf difa moch daear yn Lloegr, a barodd am 10 mlynedd, a gostiodd £34 miliwn, ac a gostiodd fywydau bron i 11000 o foch daear. Dangosodd yr ymchwil fod difa moch daear yn newid ymddygiad cymdeithasol y moch daear sy'n weddill, sydd yn ei dro, yn cynyddu'r perygl o ledaenu'r afiechyd i foch daear eraill ac i wartheg. Dim ond drwy ddifa moch daear dros ardaloedd mawr iawn y gellir osgoi'r risg cynyddol hwn. Daeth y Grwp Gwyddonol Annibynnol i'r casgliad nad oedd difa moch daear ar raddfa mor fawr yn opsiwn rheoli ymarferol, oherwydd y pryderon logistaidd, economaidd, cyfreithiol ac amgylcheddol a oedd ganddo, a'r pryderon am les yr anifeiliaid.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-235.htm

**Cynigiwyd gan:** RSPCA

**Nifer y llofnodion:** 304

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y diweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi cyhoeddi datganiad ar y lladd moch daear arfaethedig, ac mae hwn wedi'i gynnwys fel atodiad yn PET(3) 14-09 Papur 2A.

### (v) P-03-227 Ffordd fynediad yn Llanmaes

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, drigolion Llanmaes, Millands Park, a'r ardaloedd gwledig cyfagos yn gwrthwynebu:

Y ffordd fynediad ogleddol newydd arfaethedig ar gyfer y Coleg Technegol Amddiffyn

Ystad dai newydd arfaethedig Fferm Tremain.

Mae'r gwrthwynebiadau i'r uchod am y rhesymau a ganlyn:

mae'n golygu dinistrio safle maes glas pan fo safleoedd tir llwyd ar gael

bydd yn creu sŵn mawr a llygredd o ran goleuni a llwch

bydd yn achosi difrod ecolegol sylweddol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-227.htm

**Cynigiwyd gan:** Gyngor Cymuned Llanmaes

**Nifer y llofnodion:** 416

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae hwn i'w weld fel rhan o PET(3) 14-09 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2009**